

Pwrpas y bwletin yw darparu cyfle achlysurol i rannu arfer dda, newyddion a chyfleoedd Cymraeg a dwyieithog yn y meysydd Daearyddiaeth, amaeth a'r amgylchedd; Gwyddorau naturiol; Mathemateg, ffiseg, cyfrifiadureg a pheirianeg.

Darpariaeth Gydweithredol

Gwaith maes

Mae gwaith maes yn rhan annatod o gwrs gradd daearyddiaeth. Cyflwyno'r modiwl blwyddyn gyntaf '**Methodoleg Maes**' amrywiaeth o dechnegau gwaith maes dros benwythnos dwys i fyfyrwyr daearyddiaeth prifysgolion Abertawe, Aberystwyth a Bangor. Caiff hyn ei ddilyn gydag aseiniadau cysylltiedig. Mae lleoliad y modiwl yn cylchdroi o flwyddyn i flwyddyn rhwng y tair prifysgol sy'n rhan o'r cynllun.

O'r tarddle i'r aber

Mae'r modiwl '**Geomorffoleg Afonol**' yn archwilio'r prosesau sy'n digwydd oddi mewn i sianel afon. Cyflwynir y modiwl drwy gyfrwng sesiynau dros y Rhwydwaith Fideo gyda chefnogaeth leol ar ffurf tiwtorial yn y sefydliadau. Mae'r credydau sydd ynghlwm â'r modiwl yn amrywio rhwng y sefydliadau ac mae gofynion y modiwl wedi ei deilwra i adlewyrchu'r gwahaniaeth hyn.

Profiad addysgu mewn ysgol

Yn 2015/16 cyflwynwyd modiwl cydweithredol Cymraeg newydd ar y cyd rhwng prifysgolion Abertawe ac Aberystwyth sef, '**Addysgu Ffiseg drwy brofiad gwaith mewn ysgol.**' Mae'r modiwl ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb mewn gyrfa addysgu, ac yn dymuno cael profiad o leoliad gwaith mewn ysgol leol. Caiff y myfyrwyr ddiwrnod o hyfforddiant cychwynnol, ac mae'n ofynnol cwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn mynd i'r ysgol.

Mae'r profiad gwaith mewn ysgol yn cynnwys 10 hanner diwrnod o dan oruchwyliaeth athro. Drwy'r profiad gwaith, gydag athro yn fentor, disgwylir i fyfyrwyr gyflawni gweithgareddau arsylwi yn bennaf, ac yna symud ymlaen at gynorthwyo gweithgareddau addysgu graddfa fach.

Mae gan Brifysgol Caerdydd ac Aberystwyth fodiwl mathemateg sy'n darparu cyfle tebyg i'r myfyrwyr ffiseg.

Gweithdy Dyrannu Pysgod

Yn ystod 2015/16 bu darlithwyr o adrannau biowyddorau prifysgolion Abertawe, Bangor a Chaerdydd yn cydweithio i gynnal gweithdai dyrannu pysgod ar gyfer disgyblion blwyddyn 12. Roedd adborth y disgyblion fynychodd tuag at astudio cyfran o'r cwrs drwy'r Gymraeg yn gadarnhaol dros ben.

Mae'r gweithdy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr:

- adeiladu ar eu gwybodaeth am anatomi allanol a mewnol pysgod;
- cael cyfle i ddatblygu sgiliau labordy;
- datblygu eu sgiliau cyfathrebu a gwaith tîm;
- gael blas o addysg brifysgol a dysgu'r drwy'r Gymraeg



Ysgoloriaethau

PWYSIG! Ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau ym Medi 2016:

Yn dilyn adolygiad o'r drefn ddyfarnu ysgoloriaethau, mae nifer penodol o ysgoloriaethau ychwanegol ar gael i'w dyfarnu ar ddechrau'r tymor. Dyma'r pynciau gwyddonol sy'n gymwys:

- Amaeth
- Cyfrifiadureg
- Gwyddorau Biolegol
- Gwyddorau Eigion
- Mathemateg
- Daearyddiaeth
- Cemeg
- Gwyddorau Amgylcheddol
- Ffiseg

Bydd gan eich Swyddogion Cangen y ffurflenni cais.

Dyddiad cau: **06 Hydref 2016**.

Ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau ym Medi 2017:

• Ysgoloriaethau Cymhelliant

Dyma'r math o ysgoloriaeth fwyaf cyffredin yn y gwyddorau.

- £1500; – I fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 33% o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dyddiad Cau: 08 Mai 2017

• Prif Ysgoloriaethau (daearyddiaeth yn bennaf)

- £3000; – I fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 66% o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dyddiad Cau: 15 Ionawr 2017

Am fwy o wybodaeth ewch i <http://bit.ly/1YuGr0Q>

Llysgenhadon

Mae'r Coleg unwaith eto yn recriwtio myfyrwyr bl. 1 a 2. ac rydym yn arbennig o awyddus i recriwtio myfyrwyr y gwyddorau. Mae'n cynnig cyfle euraidd i ddatblygu sgiliau, ac mae tâl cysylltiedig.

Dyddiad cau: **02 Tachwedd 2016**

Cynadleddau

• Cynhadledd Wyddonol

Dydd Gwener 16 Mehefin 2017, Aberystwyth.

• Symposiwm Daearyddiaeth

Y thema fydd 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' a bydd yn archwilio'r safbwynt amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol. Mwy o fanylion i ddilyn...

'Archif S4C' yn Llyfrgell y Coleg.

Gwahoddir staff academiaidd i wneud ceisiadau am raglenni teledu Cymraeg y dymunant iddynt fod ar gael yn Llyfrgell y Coleg. Bydd y rhain i'w defnyddio i gyfoethogi profiadau dysgu ac addysgu myfyrwyr a/neu ar gyfer ymchwil staff/myfyrwyr. Ceir mynediad atynt drwy gyfrwng rhif aelodaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Ymhlith y rhestr mae cyfresi megis Corff Cymru; Dibendraw; Arfordir Cymru

Gellir gwneud cais am nifer o raglenni a chyfresi gyda'i gilydd. Ceir manylion y cylchlythyr a ffurflen gais yma <http://bit.ly/2cnfEUz> a cheir rhestr o'r rhaglenni a'r cyfresi y gellir gwneud cais amdanynt yma: bit.ly/archifS4C Dylid nodi rheswm addysgiadol clir dros wneud cais am raglen, gan y bydd cyfyngiad ar y nifer o raglenni y gellir eu gosod yn Llyfrgell y Coleg. Dyddiad cau **12:00yp 30 Medi 2016**. Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â mari.fflur@colegcymraeg.ac.uk

Gwyliau Cenedlaethol

Diolch i bawb cynigodd weithgaredd yn 2016.

Mae'r Coleg yn awyddus i roi cyfle i gynifer o sefydliadau a phynciau gynnis gweithgareddau ar stondin y Coleg yn Eisteddfodau 2017 ac hefyd Pafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg yr Eisteddfod Genedlaethol.

- Eisteddfod Yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái: 29 Mai-03 Mehefin 2017
- Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn: 04-12 Awst 2017

Os oes gennych syniad mewn golwg, cysylltwch gyda Ffion yn y lle cyntaf.

Cysylltu: I drafod syniadau a chyfleoedd i gydweithio, neu gynnig eitem ar gyfer y rhifyn nesaf, cysylltwch gyda Ffion.

Ffion Hughes, Swyddog Datblygu'r Gwyddorau

ff.hughes@colegcymraeg.ac.uk ☎

01970 622050 ✉ d/o Canolfan

Gwasanaethau'r Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, Campws Penglais, Aberystwyth, SY23 3BX



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol